OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 No. 407

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024

**Gwasanaeth gofal canolraddol awdurdod lleol: eithriad rhag cwmpas gwasanaethau cartref gofal**

**4.** Yn rheoliad 2 (gwasanaethau cartrefi gofal), ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(5) At ddibenion paragraff (1)(l) o'r rheoliad hwn—

ystyr "gofal canolraddol" ("*intermediate care*") yw'r ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolyn am gyfnod cyfyngedig at ddiben hybu gallu'r oedolyn i fyw'n annibynnol yn ei gartref ei hun drwy—

(a) osgoi ei dderbyn i ysbyty yn ddiangen,

(b) lleihau hyd unrhyw dderbyniad i'r ysbyty drwy alluogi ei ryddhau yn amserol,

(c) galluogi ei adferiad ar ôl ei ryddhau o'r ysbyty, neu

(d) atal neu ohirio'i dderbyn i wasanaeth cartref gofal;

ystyr "gwasanaeth gofal canolraddol awdurdod lleol" ("*local authority intermediate care service*") yw gwasanaeth sy'n darparu gofal canolraddol—

(a) a ddarperir gan awdurdod lleol i oedolyn yn unol â'i ddyletswyddau yn Rhan 2 neu 4 o Ddeddf 2014(**1**),

(b) pan fo'r llety a ddefnyddir at ddibenion y gofal canolraddol wedi ei freinio yn yr awdurdod lleol, ac

(c) pan fo unrhyw ofal a chymorth wedi ei ddarparu gan wasanaeth cymorth cartref y mae'r awdurdod lleol wedi ei gofrestru i'w ddarparu."

(**1**) 2014 dccc 4.